



Eich cyf/Your ref P-06-1260
Ein cyf/Our ref EM/00628/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

23 Chwefror 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 2 Chwefror ynglŷn â “Deiseb P-06-1260 – Dylid dileu’r angen am basys covid ar gyfer pob digwyddiad a gweithgaredd” a anfonwyd ataf fel y Gweinidog sydd â’r cyfrifoldeb arweiniol dros y maes polisi hwn.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad o’r mesurau coronafeirws bob tair wythnos. Cafodd yr adolygiad tair wythnos diweddaraf ei gwblhau ar 10 Chwefror.

Mae’r coronafeirws yn parhau i ledaenu yng Nghymru – ac yn y DU. Yn sgil ein hadolygiad diweddaraf, bydd Cymru yn aros ar lefel rhybudd sero, ond gallwn ddechrau llacio rhai o’r cyfyngiadau sydd ar waith yn ofalus ac yn raddol, gan nad yw’r rhain bellach yn gymesur â lefel y risg yr ydym yn ei hwynebu.

Felly, rydym yn bwriadu dechrau codi’r cyfyngiadau, gan ddechrau gyda’r Pàs COVID domestig, yn ystod y tair wythnos nesaf, gan ddibynnu ar y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd.

O 18 Chwefror ymlaen, ni fydd lleoliadau, a oedd gynt yn gorfod cadw at y rheoliadau Pàs COVID domestig – digwyddiadau mawr dan do ac awyr agored, clybiau nos, sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd – yn gorfod cyfyngu ar fynediad drwy roi mynediad i unigolion sydd wedi’u brechu neu unigolion sydd wedi cael prawf negatif yn unig (neu unigolion sydd wedi’u heithrio ar sail feddygol). Bydd y canllawiau yn nodi y caiff lleoliadau ddewis defnyddio’r Pàs COVID domestig ar sail wirfoddol fel rhan o’u hasesiad risg a mesurau rhesymol.

Bydd y Pàs COVID rhyngwladol yn parhau i fod yn allweddol i drefniadau ar gyfer teithio rhyngwladol diogelach. Bydd angen i deithwyr wirio’r rheolau ar gyfer cael mynediad i’r gwledydd perthnasol, gan gynnwys unrhyw ofynion gwahanol ar gyfer plant.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rhagor o wybodaeth am y mesurau sydd ar waith i gadw Cymru yn ddiogel ar gael ar ein [gwefan](#).

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services